# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-06-07(p.1)

### Dyddiad: Dydd Mercher 14 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adroddiad ar gynnydd Cynllun Moderneiddio’r Gwasanaeth Ambiwlans

#### Diben

Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i’r pwyllgor pa gynnydd y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi ei wneud gyda’i gynllun moderneiddio; ‘Time to Make a Difference’.

#### Cefndir

Rwy’n ymwybodol for y Pwyllgor Archwilio wedi cyhoeddi ei adroddiad ar wasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Nid ymateb i’r adroddiad hwnnw a wneir yn y papur hwn, ond yn hytrach rhoi amlinelliad o’r cynnydd y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) yn ei wneud yn erbyn ei Gynllun Moderneiddio.

Datblygodd WAST ei gynllun moderneiddio ‘Amser Gwneud Gwahaniaeth’ yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ‘Cynllun Oes’ a’r Strategaeth Gwasanaethau Gofal Brys. Cyhoeddwyd drafft terfynol y Cynllun Moderneiddio ym mis Ionawr 2007.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn bod Time to Make a Difference yn fframwaith a fydd yn galluogi’r Ymddiriedolaeth i gynllunio, gweithredu a gwireddu’r dasg o foderneiddio mewnol er mwyn trawsnewid Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i greu gwasanaeth o ansawdd byd eang.

Mae’r cynllun yn canolbwyntio ar ddwy elfen allweddol, sydd wedi eu plethu’n annatod gyda'i gilydd:

- adeiladu hyder yng ngallu’r Gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth ambiwlans traddodiadol yn y byrdymor;
- ar yr un pryd, mynd trwy broses fwy sylfaenol o newid dros gyfnod hwy.

Yr egwyddorion sydd wrth wraidd Time to Make a Difference yw mai’r cleifion sy’n dod yn gyntaf, bod partneriaethau’n holl bwysig, fod pobl yn cael eu gwerthfawrogi a bod bod yn atebol i’r cyhoedd yn hanfodol.

Mae staff a rheolwyr yr Ymddiriedolaeth wedi ymdynghedu i weithio gyda'i gilydd i weithredu’r cynllun ledled Cymru a bydd Prif Weithredwr WAST, Alan Murray, yn gyfrifol am lywio’r rhaglen o newid sydd ei angen er mwyn delio a phroblemau’r gwasanaeth.

Erbyn hyn mae Time to Make a Difference wedi symud o’r cyfnod damcaniaethol i’r cyfnod gweithredu. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn cymhariaeth a’u Cynllun Moderneiddio hyd yma, fel a ganlyn: -

- Mae’r Prif Weithredwr newydd eisoes wedi cymryd camau pwysig tuag at weithredu Time to Make a Difference trwy gryfhau tîm rheolwyr uwch yr Ymddiriedolaeth a’r strwythurau rheoli a llywodraethu. Mae tri Chyfarwyddwr Rhanbarthol wedi cael eu penodi a bydd hynny’n galluogi’r rhanbarthau i fod yn bwerdai o safbwynt darparu gwasanaeth. Byddant yn darparu gwasanaethau sy’n gallu ymateb yn lleol ar sail strategaeth genedlaethol. Byddant hefyd yn creu pwyntiau cyswllt lleol a fydd yn gallu ymateb i bryderon lleol.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhyddhau £16 miliwn o arian cyfalaf i brynu cerbydau newydd, a fydd yn darparu:

    - 119 Ambiwlans Brys newydd

    - 67 Cerbyd Gwasanaeth Gofal Cleifion

- Ar ddydd Mawrth 6 Mawrth 2007 lansiwyd y cyntaf o’r Ambiwlansys Brys. Bydd 80 o’r cerbydau’n weithredol erbyn diwedd Mawrth a’r gweddill erbyn canol Mai.

- Mae’r £16 miliwn o gyllid yn rhan o raglen fuddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn cyrraedd £309 miliwn yn 2007-08. Bydd yr arian hwn yn sicrhau y gall offer ac adeiladau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn cwrdd â gofynion yr 21 ganrif.

- Mae Cynllun Moderneiddio WAST yn cydnabod yr angen am seilwaith cyfathrebu cadarn wrth wraidd y Gwasanaethau Ambiwlans. Mae’n nodi’r angen i weithredu’r prosiect Ail-gaffael Radio Ambiwlans (ARRP) fel un o’r amcanion strategol. I’r perwyl hwnnw, ar 1 Chwefror fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid refeniw o £55 miliwn i alluogi WAST i symud at rwydwaith radio digidol. Bydd y system ddigidol newydd yn darparu terfynellau radio ar gyfer staff, yn darparu systemau cyfathrebu integredig yn yr ystafelloedd rheoli, ac yn gosod radio o’r dechnoleg fwyaf blaenllaw ym mhob cerbyd ambiwlans, gan gynnwys y tri Ambiwlans Awyr sydd gennym yng Nghymru. Bydd gwell cyfathrebu yn darparu’r seilwaith gyfathrebu ddibynadwy, safonedig, effeithlon ac effeithiol a fydd yn hanfodol er mwyn newid y ffordd y gall cerbydau a gweithwyr ambiwlans ymateb i anghenion cyfnewidiol y gwasanaeth. Wrth roi hyn ar waith yng Nghymru bydd dau gyfnod gweithredu yn y tair ardal wasanaeth. Bydd y cyfnod cyntaf yn cychwyn ym mis Ebrill 2007, yr ail gyfnod yn dechrau ym mis Mehefin 2007 a’r cyfan yn cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2008.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o gyhoeddi'r Cynllun Moderneiddio. Ond mae gan y cynllun oblygiadau ariannol i Ymddiriedolaeth GIG yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans a bydd angen i'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'i gomisiynwyr a gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn mynd i'r afael â hyn.

## Themâu Trawsbynciol

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn hollol ymrwymedig i'r weledigaeth a nodir yn Cynllun Oes, sy'n anelu at:

- wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd, gan eu dileu yn llwyr lle bo modd
- cefnogi rôl dinasyddion mewn hybu eu hiechyd eu hunain a iechyd ar y cyd
- datblygu rôl cymunedau lleol o greu a chynnal iechyd
- hybu annibyniaeth, cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth ac arweinyddiaeth glinigol a phroffesiynol
- ailwampio swyddogaethau pob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol fel y bydd y dinesydd yn cael ei weld a'i drin gan staff o ansawdd uchel yn y cartref neu'n lleol - neu'n cael ei anfon yn gyflym i dderbyn gofal arbenigol rhagorol lle bo angen
- darparu triniaeth glinigol sy'n cwrdd â safonau ansawdd pendant a gofal priodol yn ôl yr angen, wedi ei seilio ar dystiolaeth
- bod yn fwy atebol, gan ddatblygu dull mwy corfforaethol o weithredu yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, fel y bydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân
- sicrhau bod y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yn ymgysylltu'n llawn ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu yn unol ag amcanion y polisi Darparu Gwasanaethau Gofal Brys, a fydd yn delio ag ystyriaethau megis galwadau brys diangen am ambiwlans; defnyddio adnoddau cyfredol yn well; amseroedd mynd i mewn ac allan o Unedau Damweiniau a Brys; ystadau a'r fflyd gerbydau.

Mae'r strategaeth Darparu Gwasanaethau Gofal Brys yn gosod gweledigaeth glir i Galw Iechyd Cymru (NHS Direct) a'r gwasanaeth Ambiwlans. O 1 Ebrill 2007 bydd Galw Iechyd Cymru yn cael ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans. I gychwyn, ni fydd y cyhoedd yn gweld unrhyw newid amlwg yn y gwasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol iddynt, dim ond y bydd Galw Iechyd Cymru yn dod yn rhan o WAST. Yn y tymor hirach y nod fydd darparu un asesiad cyffredin unigol a fydd yn cyfeirio pobl at y gwasanaeth priodol, er y bydd yn bosibl cysylltu gyda'r gwasanaethau brys trwy nifer o wahanol bwyntiau. Er bod claf yn cysylltu â'r Gwasanaeth Ambiwlans mae'n bosibl y byddai Galw Iechyd Cymru yn gallu rhoi gwell sylw iddynt a byddai'n bosibl iddynt gael eu trosglwyddo gan y naill gorff i'r llall.

Mae cyfran sylweddol o lwyth gwaith y gwasanaeth ambiwlans yn ymwneud â materion cymdeithasol, yn hytrach na gofal iechyd. Mae WAST wedi gwneud ymrwymiad i gyfrannu at ddatblygu'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar: Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol.

a chydweithio’n agos gyda’r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod moderneiddio’r gwasanaeth ambiwlans yn integreiddio’n effeithiol lle bynnag y bo modd.

## Gweithredu gan y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i’r pwyllgor nodi statws presennol y Cynllun Moderneiddio WAST a rhoi eu cefnogaeth i’r dull cyffredinol o weithredu.

Dr Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Person Cyswllt: Kristy Roberts, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ffôn 029 2080 1419